datganiad addysg yr NUT:
diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc

dymchwel y muriau



cyflwyniad

Steve Sinnott,

ysgrifennydd cyffredinol yr NUT

Rwy'n hynod falch o Ddatganiad Addysg yr NUT, 'Dymchwel y Muriau'. Rwy'n credu bod ei bolisïau a'i argymhellion yn creu strategaeth bwerus ar gyfer addysg yng Nghymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf o leiaf, os nad mwy.

Mae'r Datganiad wedi'i wreiddio'n ddwfn yn nhraddodiadau a hanes yr NUT. Mae gan yr NUT gyfoeth aruthrol o wybodaeth a phrofiad yn sylfaen gadarn i'w waith. Ers dros 130 o flynyddoedd, mae gan yr NUT record unigryw o hybu cynnydd positif mewn addysg. Mae ein polisïau wedi gwella bywydau plant a phobl ieuainc a'u hathrawon.

Seilir 'Dymchwel y Muriau' ar waith ymchwil a thystiolaeth drwyadl. O'i fabwysiadu, rydym yn credu y bydd yr argymhellion yn gwella'r addysg a ddarperir i blant a phobl ieuainc.

Yn wir, mae'n rhaid i athrawon deimlo eu bod yn gallu cyfrannu at y drafodaeth ynghylch sut gall addysg wella bywydau plant a phobl ifanc yn yr economi fyd-eang.

Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu oddi wrth systemau addysg yn rhyngwladol, ac yn gweithio gyda hwy. Gallwn ddysgu oddi wrth eu datblygiadau hwy, a chyfrannu atynt.

Mae 'Dymchwel y Muriau' yn cynrychioli llais aelodau yr NUT a holl aelodau'r proffesiwn addysgu. Mae ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag addysg a chymunedau ysgolion; rhieni a phobl ieuainc, athrawon a phawb sy'n gweithio mewn ysgolion. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd ein argymhellion, a'r egwyddorion maent yn seiliedig arnynt, yn berthnasol i gynulleidfa eang, nid dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â'r byd addysg.

Hoffwn dderbyn eich safbwyntiau a'ch barn am y ddogfen hon. Rwy'n cymeradwyo 'Dymchwel y Muriau' ac yn edrych ymlaen at drafodaeth iach ynghylch yr argymhellion.

1. Mae addysg yn hawl ddynol sylfaenol. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i addysg o safon uchel. Mae addysg yn ganolog i ddatblygiad personol ac iechyd pobl ieuainc. Mae'n eu hannog i feddwl am, a derbyn, gwybodaeth. Mae addysg yn galluogi deall cymdeithas a chyfrannu ati. Mae gan athrawon rôl allweddol a sylfaenol mewn addysg ac maent yn rhan greiddiol o bob math o addysg a ddarperir. Mae athrawon yn ysbrydoli pobl ieuainc ac yn eu hannog i gyflawni i'w llawn botensial. Maent yn cyfoethogi eu gwledydd a'u cymdeithasau.

2. Fel hawl ddynol, mae addysg yn arbennig iawn. Mae'n hybu hawliau a chyfrifoldebau eraill. Yn fyd-eang a gartref, gall addysg chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gael gwared ar dlodi. Mae gan addysg y grym i helpu i ryddhau nid dim ond unigolion, ond grwpiau cyfan o bobl hefyd. Mae'r syniadau hyn wedi bod yn sail i bolisïau ac arferion yr NUT ers dros 130 o flynyddoedd.

3. Mae'r NUT yn deall erioed bod addysg gydol oes yn hanfodol i gymdeithas ac i'r economi. Heddiw rydym yn cydnabod bod sawl economi byd-eang yn datblygu'n gynt a chynt. Mae Tsieina, er enghraifft, yn datblygu'n hynod gyflym i fod yn rym gweithgynhyrchu mawr. Mae hyn yn cynnig her a chyfle i'n gwlad ni. Mae'n rhaid i addysg chwarae ei rhan mewn gwneud y gorau o'r cyfle hwnnw ac wynebu'r her a gyflwynir.

4. Mae'n rhaid i bob person ifanc gael cyfle cyfartal i dderbyn addysg o safon uchel a hefyd mae'n rhaid iddynt allu dysgu sgiliau a disgyblaethau newydd drwy gydol eu hoes fel oedolion. Mae addysg yn hanfodol i bob person ifanc. Mae'n hanfodol i bob cymuned maent yn byw ynddi.

5. Seilir y datganiad addysgol hwn gan yr NUT ar ein profiad, ein gwybodaeth a'n tystiolaeth o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae mwy a mwy o wledydd yn dod i ddeall bod cyflwr cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eu gwlad yn dibynnu ar wybodaeth, dysg a sgiliau eu poblogaeth.

6. Mae adroddiad diweddaraf y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (SCDE), 'Education at a Glance', yn dweud bod pob un o wledydd SCDE wedi gweld cynnydd yn lefelau addysgol eu dinasyddion yn ystod y degawd diwethaf ac, mewn rhai, mae'r cynnydd wedi bod yn nodedig iawn. Mae'r NUT yn ymroddedig i chwarae rhan bellach mewn codi safonau cyflawniadau addysgol plant a phobl ieuainc y DU, Ewrop a phob cwr o'r byd.

7. Yn wir, mae'r muriau addysgol a fodolai rhwng gwledydd yn prysur gael eu dymchwel. Mae protocol arloesol diweddar, y cytunwyd arno rhwng y Llywodraeth â gwledydd y Gymanwlad, yn ceisio gwarchod y buddsoddiadau a wnaed mewn hyfforddi athrawon mewn gwledydd sy'n datblygu.

8. Ar lefel fyd-eang, mae'r gwledydd yn derbyn gwybodaeth a syniadau gan ei gilydd ac wrth i lywodraethau ddysgu oddi wrth ei gilydd, felly hefyd y sefydliadau i athrawon. Mae Education International a sefydliadau rhyngwladol eraill yn darparu fforymau a rhwydweithiau byd-eang ac ynddynt fe hybir gwerthoedd sylfaenol cael cyfleoedd cyfartal i dderbyn addysg o safon uchel. Mae mwy o gyswllt nag erioed yn awr rhwng athrawon, drwy gyfrwng eu sefydliadau, ac mae'r cyswllt hwnnw'n tyfu'n fwy a mwy hanfodol bob dydd.

9. Mae 'troi'n fyd-eang' yn sicr yn berthnasol i addysg. Gwnaeth trafodaethau diweddar ynghylch y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau (CCFG / GATs) gynnwys dadleuon tanbaid ynghylch pa un ai ddylid cynnwys addysg yn y farchnad fyd-eang ai peidio. Mae'r NUT yn cytuno'n ddigamsyniol gydag Education International, sef bod rhaid i addysg fod yn wasanaeth cyhoeddus, yn cael ei ysbrydoli gan werthoedd ac ethos gwasanaeth cyhoeddus a'i ddarparu'n gyhoeddus os yw pob plentyn a pherson ifanc i dderbyn eu hawl ddynol i addysg.

10. Yn y byd addysg yng Nghymru, mae'n rhaid i bawb cysylltiedig werthfawrogi a chyflawni eu cyfrifoldebau. Mae hyn yn cynnwys yr athrawon, y rhieni ac, yn wir, y myfyrwyr. Ond mae ein gwasanaeth addysg wedi cael ei danseilio ers peth amser bellach gan ormod o feddwl byrdymor. Yn rhy aml, mae addysg wedi cael ei defnyddio i sgorio pwyntiau gwleidyddol, a'r rheini'n bwyntiau di-nod. Dylai addysg yng Nghymru adlewyrchu'r hyder a'r hygrededd sy'n llifo o'r cyfranogiad eang a'r synnwyr o berchnogaeth sy'n bodoli ymhlith yr holl bobl allweddol yn y maes, yn genedlaethol ac yn lleol. Yn y datganiad hwn, mae'r NUT yn cyflwyno bwriadau ar gyfer ennyn cefnogaeth a chyfraniad gan athrawon a'u sefydliadau, gan undebau llafur a sefydliadau cyflogwyr a chan rieni a myfyrwyr. Mae'n rhaid i 'ddymchwel y muriau' fod yn thema'r byd addysg yn y ganrif newydd hon.

11. Cefnogodd yr NUT y ddelfryd o Gynulliad Cenedlaethol i Gymru. Mae hefyd yn hynod falch bod cymaint o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adlewyrchu ei bolisïau ef ei hun. Mae'r NUT a LICC yn credu yn yr addysg o'r safon uchaf un, sydd ar gael i bawb mewn system gynhwysol, gan roi pwyslais ar asesu i gefnogi'r prosesau addysgu a dysgu, cael gwared ar dablau cynghrair amrywiol a chefnogi'r AALlau fel cyrff lleol democrataidd atebol. Mae Cymru'n creu ei pholisïau addysg ei hun ac yn yr un modd ag y mae'r wlad hon yn dysgu gan wledydd eraill, mae gwledydd eraill hefyd yn dysgu llawer gan Gymru.

12. Mae yr NUT yn cefnogi cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r cyfoeth a'r amrywiaeth a geir yng Nghymru i'r eithaf. Mae'n cefnogi'r Cwricwlwm Cymreig, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl ddysgu am nodweddion diwylliannol, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru yn eu holl agweddau amrywiol. Mae'n cefnogi'r hawl sydd gan bob plentyn yng Nghymru i ddysgu'r ddwy brif iaith, Cymraeg a Saesneg, ac mae'n cefnogi hawl y rhieni i ddewis pa un ai ddylai eu plant gael eu haddysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r iaith Gymraeg, fel yr ieithoedd niferus eraill a siaredir yn awr yn y DU, yn cyfoethogi ein cymdeithas ledled y DU gyfan.

13. Bwriad yr NUT yn y datganiad hwn yw cyflwyno argymhellion strategol ar gyfer y gwasanaeth addysgol yng Nghymru. Cred y bydd y argymhellion hyn yn sicrhau bod modd i holl blant a phobl ieuainc Cymru dderbyn addysg o safon uchel, gan ddatblygu cyflawniadau addysg gyfun ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

14. Mae'r datganiad yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- **gwasanaeth addysg i bawb;**
- **y Cwricwlwm Cenedlaethol a'i asesiadau;**
- **y proffesiwn addysgu; ac**
- **atebolrwydd.**

15. Mae datganiad addysgol yr NUT yn cyfrannu at y ddadl ynghylch sut mae modd datblygu addysg yng Nghymru am y degawd nesaf ac yn y ganrif newydd hon. Cyhoeddir datganiad ategol, ar wahân ar gyfer Lloegr.

mae addysg yn hawl sylfaenol

sicrhau yr un hawliau i bawb



16. Os yw gwasanaeth addysg am ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc, mae'n rhaid iddo fod yn 'gyfun' ei ddull o weithredu. Mae addysg gynradd ac arbennig yn enghreifftiau cystal o lwyddiant dull cyfun o weithredu ag yw addysg uwchradd. Nid oes dim yn 'safonol' am addysg gyfun. Does dim byd mewn addysg gyfun sy'n llesteirio disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniadau pobl ieuainc. Gall addysg gyfun gyfrannu cymaint at gynnydd y plentyn talentog a medrus ag y gall at gynnydd plentyn sy'n cael anhawster i ddysgu ar hyn o bryd.

17. Mae addysg gyfun yn golygu dymchwel unrhyw furiau sy'n atal addysg o safon uchel. Ni all unrhyw lywodraeth sy'n ymrwymo i godi safonau byw ei phobl, a chwarae rôl gynyddol yn rhyngwladol, fforddio cael gwasanaeth addysg sydd wedi'i siapio gan rwystrau'n codi o ddylanwad dosbarth cymdeithasol er enghraifft, neu faterion economaidd neu iechyd, hil, rhyw, anabledd neu rywioldeb. Ni all unrhyw gymdeithas wâr ganiatáu iddi'i hun fod yn unrhyw beth ond gwyliadwrus wrth ofalu bod ei harweinwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

18. Mae'r termau 'addysg gyfun' a 'chyfle cyfartal' yn golygu'r un peth. Fel mae adroddiad SCDE ar y Rhaglen o Asesu Myfyrwyr yn Rhyngwladol (2000) yn dangos, y gwasanaeth addysg gorau yw'r un ble ceir system sengl heb unrhyw amrywiaeth o ran darpariaeth, system ag iddi adnoddau da sy'n targedu ac yn diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc.

19. Mae'r NUT yn hynod falch bod LICC yn cydnabod gwerth addysg gyfun a'i bod hefyd yn cytuno gyda'r NUT bod rhaid wrth ymosod cyson oddi mewn i system o'r fath ar wraidd a tharddiad cyni cymdeithasol ac economaidd. Mae Achub y Plant wedi darganfod bod yn agos i un o bob deg plentyn yn dal i ddioddef o dlodi difrifol a chyson, yn para am bum mlynedd neu fwy. Mae mentrau fel 'Cychwyn Cadarn / Sure Start' yn gydnabyddiaeth bwysig o'r ffaith yma, ac yn gyfraniad real at fynd i'r afael ag elfen niweidiol a chyson yn ein cymdeithas. Mae gan ddosbarth cymdeithasol ddylanwad pwerus o hyd ar gyflawniadau pobl ieuainc.

20. Mae'r NUT yn cefnogi penderfyniad LICC i anelu at feddwl a gweithredu ar y cyd drwy greu portffolio gweinidogaethol ar gyfer Cyfiawnder ac Adfywiad Cymdeithasol. Mae hyn wedi hwyluso gweithredu ar y cyd drwy gyfrwng y Fenter Cymunedau yn Gyntaf – er enghraifft, drwy ddarparu brecwast am ddim i blant mewn ysgolion cynradd. Cynigir hyn mewn ardaloedd difreintiedig ar hyn o bryd ond mae bwriad i'w ddarparu ym mhob ysgol gynradd yn fuan. Mae hyn yn dangos sut mae mentrau mewn cymunedau ar gyfer rhoi sylw i gyni cymdeithasol ac economaidd yn gallu cysylltu â mentrau sy'n rhoi sylw i gyni o'r fath mewn cyflawniadau mewn addysg.

21. Mae'r potensial mwyaf ar gyfer gweithio ar y cyd i'w weld yn yr agenda 'Mae Pob Plentyn yn Cyfrif / Every Child Matters'. Cafodd yr agenda yma groeso brwd ac mae'n cydnabod ac yn cynnal y syniad bod pob ysgol yn galon ei chymuned. Mae'n ddull o weithredu sydd yr un mor bwysig i gymunedau trefol ag yr ydyw i gymunedau gwledig.

22. Os yw ysgolion yn hanfodol i'w cymunedau, yna dylai pob rhiant gael yr hawl i anfon eu plant i ysgolion lleol da ac, yn eu tro, dderbyn y cyfrifoldebau sy'n rhan o hawl o'r fath. Mae'r dystiolaeth i gyd yn tynnu sylw at y ffaith mai dyma yw dymuniad mwyafrif helaeth rhieni Cymru. Yn wir, mae ysgolion lleol yn cael eu cyfoethogi gan eu cymunedau ac mae'r cymunedau'n cael eu cyfoethogi gan eu hysgolion lleol.

23. Byddai'n hynod besimistig cymryd yn ganiatáol bod y syniad o ysgolion lleol da i bob cymuned yn syniad llai pwerus na'r cysyniad o hawl i ddewis ysgol. Yn wir, gall y syniad o "ddewis" greu mwy o raniadau cymdeithasol. Croesawodd yr NUT yr araith a wnaed gan y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, 7 Hydref 2004. Ynddi beirniadodd y syniad o ddewis.

Dim ond y rhai sydd â'r modd, a hwnnw'n fodd ariannol ac weithiau ddaearyddol, all fanteisio ar y cyfle i ddewis ysgol. Mae gwahaniaethu ac anfantais economaidd a chymdeithasol yn golygu nad yw'r syniad o sicrhau bod dewis o ysgol ar gael i bawb yn ddim byd ond breuddwyd. Rhoddir gwir ystyr i ddewis pan mae ar gael i bobl ieuainc oddi mewn i ysgolion. Mae cwricwlwm o ran hawl sydd yn cynnig addysg o'r safon uchaf yn rhoi grym i bobl ieuainc ddewis sut a beth i'w ddysgu.

24. Nodweddir y pum mlynedd nesaf gan newidiadau demograffig sy'n cael effaith yn awr drwy niferoedd is ar gofrestri ysgolion. Dylai'r gwasanaeth addysg ddysgu oddi wrth wersi'r gorffennol pan oedd niferoedd is yn effeithio ar ysgolion. Mae'r argymhellion yn nes ymlaen yn y datganiad hwn yn cyfeirio at ffyrdd o wella'r gwasanaeth addysg ymhellach drwy ddefnyddio niferoedd is i wella maint dosbarthiadau er enghraifft. Mae'n rhaid wrth benderfyniadau effeithiol, atebol a democrataidd sy'n ymateb yn bositif i effeithiau newid demograffig ac sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau lleol.

mae'r termau
addysg gyfun
a
chyfle cyfartal
yn golygu'r un peth

ysgolion, cymunedau ac awdurdodau lleol

25. Er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fynychu ysgolion lleol da, mae'n rhaid wrth fframwaith darparu sy'n annog ac yn cefnogi'r egwyddor honno. Mae awdurdodau lleol sy'n arwain eu cymunedau lleol yn allwedd i'r cysyniad hwn.

26. Dim ond awdurdodau lleol sy'n gallu cynnal a darparu cefnogaeth ychwanegol i ysgolion pan a ble mae ei hangen. Mae defnydd o'r sector preifat er mwyn cyflwyno gwasanaethau craidd ar lefel awdurdodau addysg lleol wedi bod yn fethiant yn Lloegr. Mae yr NUT yn croesawu'r ffaith nad oes unrhyw gynlluniau cyffredinol i breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

27. Nid yw awdurdodau lleol effeithiol yn gweithredu o du ôl i ddrysau caeedig neuadd sir neu dref. Yn hytrach maent yn ystyried y gweithwyr, y rhieni a'r llywodraethwyr yn rhan o'r awdurdodau a'u sefydliadau eu hunain, gan weithio mewn partneriaeth â hwy. Dylai awdurdodau lleol ddal ati i chwarae rhan ganolog mewn darparu gwasanaethau.

28. Mae LICC yn edrych ar ffyrdd o sicrhau mwy o gydweithio rhwng y 22 awdurdod addysg lleol (AALlau) parthed anghenion addysgol arbennig, yn unol â'r adolygiad cyffredinol o AAA a gynhelir gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae gan AALlau rôl allweddol i'w chwarae mewn cynllunio a sicrhau mynediad i'r anabl i ysgolion a cholegau. Yn unigol neu ar y cyd, gallant sicrhau darpariaeth mewn achosion ble nad oes llawer o alw am yr un angen penodol a gallant gynnig gwasanaethau cefnogi ymddygiad. Hefyd, mae cefnogaeth i blant o grwpiau lleiafrif ethnig drwy gyfrwng y Cyflawniad Lleiafrif Ethnig a'r Grantiau Teithwyr yn hanfodol.

29. Felly, mae awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol mewn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal yn y byd addysg. Yn fyr, dylai awdurdodau lleol nid yn unig sicrhau ansawdd y gwasanaethau addysg ond hefyd sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i dderbyn gwasanaethau addysg.

mae'n rhaid i'r ysgolion eu hunain reoli datblygiad eu gwasanaethau

polisi derbyn

30. Er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i gael addysg, mae'n rhaid wrth broses dderbyn deg a chyfartal. Mae trefniadau derbyn cyffredin yn allwedd i gyrraedd y nod hwn. Mae yr NUT wedi bod yn gefnogol erioed i'r cysyniad o fforymau derbyn lleol. Ond mae'n rhaid wrth ddannedd ar y fforymau derbyn lleol hyn. Ni ddylid sefydlu unrhyw weithdrefn dderbyn sy'n cynnig mantais i un ysgol ar draul ysgol arall.

31. Mae datblygu Academïau yn Lloegr yn gamgymeriad. Maent yn gallu tanseilio cymunedau lleol o ysgolion ac effeithiolrwydd cefnogaeth yr awdurdod addysg lleol. Mae nawdd yn tanseilio atebolrwydd democrataidd a'r cwricwlwm o ran hawl. Mae statws academi'n hybu'r neges eu bod yn well nag ysgolion eraill, o ran statws a buddsoddiad cyfalaf, pa un ai oes tystiolaeth o blaid hynny ai peidio. Mae'r NUT yn croesawu'r ffaith nad oes unrhyw gynlluniau i ddatblygu Academïau yng Nghymru.

32. Pe bai gan bob ysgol weithdrefnau derbyn cyffredin ni fyddai unrhyw wahaniaeth rhwng ysgolion sy'n datblygu'n unigol a chlystyrau o ysgolion sy'n cydweithio fel y bo'n briodol. Byddai'r egwyddor y dylai teuluoedd o ysgolion wasanaethu i ddiwallu anghenion pob disgybl ym mhob cymuned yn gyffredin i'r ddau ddull o weithredu.

trefniadau derbyn cyffredin yw'r allwedd

cydraddoldeb

mae gwasanaeth addysgol effeithiol yn gallu ymateb i anghenion lleol

33. Mae system addysg effeithiol yn gallu ymateb i anghenion lleol. Caiff ei chynnal gan weledigaeth gydlynol o gyfle cyfartal. Mae'r weledigaeth o ddewis, ar y llaw arall, yn gallu creu mwy o raniadau mewn cymdeithas, yn cynnwys gwahanu ar sail ethnigrwydd. Mae'n bryder a gydnabyddir nid yn unig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond hefyd gan y Swyddfa Gartref, yn ei "Strategy on Common Cohesion and Race Equality" er enghraifft. Dywed y Strategaeth, yn gwbl briodol, bod "mwy o ddewis yn y gwasanaethau cyhoeddus yn gallu arwain pobl i ddefnyddio'r dewis hwnnw mewn ffordd sy'n eu gadael yn byw bywydau ar wahân i, neu ochr yn ochr â phobl o gefndiroedd gwahanol, ond heb ryngweithio â hwy".

34. Darganfu elusen 'Achub y Plant' bod yn agos i 1 o bob 10 plentyn yn dioddef o dlodi difrifol a chyson, yn para am bum mlynedd neu fwy. Yng Nghymru, mae'r Undeb wedi croesawu'r gwaith ymchwil a wneir gan Fudiad Rowntree i effeithiau cyni ar blant ledled y wlad ac mae'n falch o fod yn gysylltiedig â'r gwaith hwn. Mae hefyd yn edrych ymlaen at weld bwriad y Llywodraeth o sefydlu Canolfannau Blynyddoedd Cynnar ym mhob AALl yng Nghymru yn cael ei weithredu.

35. Tra bo canlyniadau arholiadau merched yn cael cyhoeddusrwydd mawr a phryderon yn cael eu mynegi am fechgyn a'r ffaith eu bod ar ei hôl hi mewn nifer o bynciau, yn gudd y tu ôl i'r ddadl honno mae cenhedlaeth o ferched a dynion ifanc sydd wedi syrthio drwy rwyd y byd addysg yn llwyr ac sy'n cael eu hystyried yn lwcus os ydynt yn llwyddo i gael hyd i swyddi gyda chyflog isel. Ceir hefyd gyswllt amlwg rhwng y rhywiau a thlodi plant ledled y DU. I ddynion a merched, mae anweithgarwch economaidd yn llwybr allweddol at dlodi ond mae merched yn wynebu peryglon ychwanegol o ddioddef o dlodi o ganlyniad i'w grym ennill cyflog is, eu cyfrifoldebau gofal a'r strwythurau teuluol sy'n prysur newid. Yng Nghymru, mae gan LICC rôl allweddol i'w chwarae felly mewn sicrhau lle canolog i gyfle cyfartal.

ariannu addysg

36. Tra bo'r mecanwaith ar gyfer dyraniad cyllid LICC ar gyfer addysg yng Nghymru wedi'i egluro i raddau helaeth – ac mae hynny i'w groesawu - mae'r cwestiwn sylfaenol ynghylch sut i ddiwallu gofynion sylfaenol ac ychwanegol ysgolion eto i'w ddatrys.

37. Ni all cyfle cyfartal i dderbyn addysg ddibynnu ar newidiadau byrdymor mewn cyllid. Mae'r NUT wedi croesawu'r ffaith bod y gyllideb ddrafft ddiweddar ar gyfer Cymru wedi'i seilio ar dair blynedd yn ddarpariaethol; mae hyn o gymorth yn gyffredinol, er nad yw rhai ffigyrau'n glir eto. Croesewir rhagor o eglurder a chyllidebau tymor hwy, ond mae'r swm a neilltuir i addysg yn parhau'n hollbwysig. Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyrraedd y nod o wario 5.9 y cant o'r cynnyrch domestig crynswrth, sef y cyfartaledd a argymhellir gan SCDE, ar addysg eto.

mae
anghenion
sylfaenol
ac
ychwanegol
yr ysgolion
eto
i'w datrys

argymhellion

(a) > Mae fforymau ysgolion ar gyfer cynghori awdurdodau lleol ynghylch cyllid mewn cyfnodau datblygu amrywiol. Dylid datblygu eu potensial ar gyfer darparu cyngor rhagorol a dylid bod yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynrychioliadol. Dylai eu haelodaeth gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau rhieni, athrawon a llywodraethwyr.

(b) > Dylai mentrau ar gyfer datblygu ysgolion cymunedol ddod o'r ysgolion eu hunain. Dylai'r ysgolion gynnal arolwg mewnol ar y gwasanaethau ychwanegol sydd eu hangen, mewn cydweithrediad â'r awdurdodau lleol. Gyda chefnogaeth ariannol a rhesymol gan awdurdodau lleol, byddai'r ysgolion yn cynnig argymhellion ar gyfer datblygiadau. Gyda chefnogaeth gyllido gan LlCC, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol gostio'r datblygiadau a gwarantu cyllid, yn cynnwys cyllid cyfalaf.

(c) > Dylai cyllid penodol i gefnogi trefniadau gweithio ar y cyd rhwng ysgolion fod ar gael i ysgolion gan LlCC, drwy gyfrwng yr AALl. Dylai unrhyw gyfleusterau arbenigol a ddatblygir gan ysgolion unigol fod ar gael i ysgolion yn y gymuned ehangach.

(ch) > Os yw ysgolion mewn anhawster, dylai'r AALl dderbyn pwerau ac arian i ddarparu cefnogaeth hirdymor yn yr ysgolion hynny. Datblygir y bwriad hwn ymhellach yn yr adran 'Atebolrwydd'.

(d) > Mae'n rhaid egluro'r berthynas rhwng datblygiadau polisi LlCC a'u costau. Dylai LlCC arolygu cost ei gofynion statudol a'i hymrwymiadau polisi ar gyfer y gwasanaeth addysg. Nid oes llawer o dystiolaeth bod gwerthusiad priodol o'u cost yn cael ei gynnal wrth gyflwyno polisïau newydd. Dylai gwerthusiad cost o'r fath gynnwys costau presennol yr ysgolion a'r costau mewn gwir dermau wrth gyflwyno gwasanaethau eraill ar lefel ysgol, gan gynnwys costau cyfalaf.

(dd) > Dylai LlCC sefydlu ei grŵp adolygu cyllid ei hun er mwyn sefydlu mecanwaith cyllido ar gyfer ysgolion a gwasanaethau'r awdurdod addysg lleol, yn seiliedig ar y gwir gostau y mae unrhyw ofynion yn eu gosod ar ysgolion – hynny yw, cyllid a arweinir gan weithgarwch. Daw aelodau'r grŵp o fyd llywodraeth leol a chanolog ac o'r holl undebau athrawon a staff cynorthwyol.

(e) > Dylai grŵp adolygu cyllid ar wahân edrych ar rôl a gallu awdurdodau lleol i ddiwallu, ym mhob gwasanaeth, anghenion y cymunedau difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd. Wrth wneud y gwaith cychwynnol, byddai'r ddau grŵp yn cyfuno i gytuno ar ddarganfyddiadau cydlynol er mwyn eu cyflwyno i LlCC. Cyn sefydlu'r ddau grŵp, byddai LlCC yn addo gweithredu'r ddau ddull.

(f) > Fel nod lleiafswm, dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig geisio cyrraedd at gyfartaledd SCDE o 5.9 y cant i'w wario ar addysg.

(ff) > Dylai LlCC ddal ati i gefnogi cydweithrediad rhwng AALl.

byddai
ysgolion
yn cynnig
argymhellion
ar gyfer datblygiadau

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc, waeth beth yw ei amgylchiadau ...

(g) > Dylai pob awdurdod lleol orfod cynnal amrywiaeth o wasanaethau a darpariaeth graidd. Nodir y rhain isod.

- Dylid cynnal y gwasanaethau craidd fel bod AALl yn gallu codi lefelau cyflawniad lleiafrifoedd ethnig yn ganolog. Rôl y gwasanaethau hynny fydd darparu gwell cefnogaeth i ysgolion ac i ddisgyblion pan a lle bo angen a hefyd darparu datblygiad proffesiynol i athrawon.

- Gyda chyllid priodol gan LlCC, dylai pob AALl sefydlu neu allu darparu amrywiaeth lawn o wasanaethau addysg arbennig, drwy gydweithio gydag AALl cyfagos, yn cynnwys gwasanaethau Seicoleg Addysgol, gwasanaethau cefnogi ar gyfer anghenion addysgol arbennig penodol ac amrywiaeth o ysgolion arbennig. Dylai polisi pob AALl ar ehangu mynediad sicrhau bod pob agwedd ar ei ddarpariaeth yn gysylltiedig â'i gilydd ac ag ysgolion prif ffrwd. Dylai pob AALl ddal ati i ddatblygu mynediad i ysgolion, gyda'r bwriad o sicrhau mynediad llawn ar gyfer y rhai ag anableddau.

- Dylai pob AALl ddarparu gwasanaethau cefnogi ymddygiad i ysgolion, a dal ati i fod â chyfrifoldeb am ddarparu addysg briodol i bob disgybl, yn cynnwys y rhai sy'n ymddwyn yn amhriodol yn yr ysgolion prif ffrwd, drwy gynnal ysgolion neu unedau ar gyfer y rhai ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc, waeth beth yw ei amgylchiadau, hawl i ddarpariaeth addysgol briodol.

- Yn yr un modd, mae'n rhaid i Wasanaethau Ysbyty a Chartref fod ar gael, fel y bo'n briodol.

- Dylai pob ysgol allu defnyddio gwasanaethau llawn AALl.

- Yng nghyd-destun cyfrifoldebau newydd yr awdurdodau lleol am blant mewn perygl, dylai pob AALl benodi swyddogion proffesiynol arweiniol i ddarparu cyngor i ysgolion – ac i weithredu pan fo angen – os oes plentyn mewn perygl wedi cael ei ganfod. Gyda'r ysgolion a'r sefydliadau athrawon, dylai'r AALl ddal ati i ddatblygu polisïau ymarferol ar gyfer ymddygiad plant, yn cynnwys polisïau ar fwlio a bwlio homoffobig. Mae'r Gweinidog ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi derbyn prif argymhellion ymchwiliad Clywch gan y Comisiynydd Plant. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu yn awr, gyda chefnogaeth yr NUT, er mwyn sicrhau bod plant a staff yn cael eu gwarchod yn ysgolion Cymru.

(ng) > Ar lefel genedlaethol, dylai LlCC gynnal asesiadau effaith cynhwysfawr ar gydraddoldeb hiliol fel rhan o'u argymhellion polisi a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer eu harchwilio gan y cyhoedd. Y mae'r NUT yn annog LlCC i weithredu argymhelliad Panel Cydlynu Cymunedol y Swyddfa Gartref. Dywed hwn y dylid nid yn unig fonitro cynnwys poblogaethau ysgolion ond hefyd y dylai Adran Hyfforddi ac Addysgu LlCC sefydlu strategaethau i annog derbyn plant o gefndiroedd cymysg i ysgolion.

(h) > Dylai LlCC gynnal a chynyddu'r grantiau penodol i Wella Cyflawniadau Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr, yn unol â chwyddiant ac angen. Dylid sefydlu grant cenedlaethol newydd, adolygedig ar gyfer awdurdodau addysg lleol, iddynt ei ddefnyddio pan fo ysgolion yn profi cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'n bryder bod grantiau fel rheol yn cael eu neilltuo ar sail fyrdymor, gan greu problemau cyflogaeth i'n haelodau. Byddai'n well creu cylch parhaol o athrawon gyda'r arbenigedd angenrheidiol mewn AALl unigol, neu gydweithio ar draws ffiniau sirol ar y mater hwn.

(i) > Ar hyn o bryd, mae LlCC yn edrych ar yr anawsterau a brofir gan lawer o rieni wrth iddynt geisio cael hyd i ofal plant fforddiadwy o safon uchel. Mewn sawl achos, mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl i rieni weithio. Mae'r NUT yn rhan o'r gwaith hwn ac mae'n annog LlCC i ddatblygu strategaeth sy'n sicrhau bod gan bawb hawl i ofal plant o'r safon uchaf, gyda'r cyllid priodol.

... hawl i ddarpariaeth addysgol briodol

"Mewn perthynas â bywydau pobl, mae mwy o newid nag erioed yn digwydd. Gwelir newid mewn agwedd tuag at yr amgylchedd a chynnwrf mewn gwleidyddiaeth ryngwladol ochr yn ochr â datblygiadau economaidd a thechnolegol sydd wedi dechrau trawsnewid natur gwaith a threfniadaeth.

Felly, mae angen cwricwlwm a fydd, ymhen degawd ar y mwyaf, yn ail-ddiffinio pob cyflawniad ac, yn hytrach na rhoi iddo'r arwyddocâd academaidd cul presennol, yn annog cyflawni gan bawb ac yn hybu creadigrwydd, cydweithrediad a blys am antur".

38. Daw'r geiriau hyn o gyflwyniad cyhoeddiad gan yr NUT, **"Strategaeth ar gyfer y Cwricwlwm"**. Maent yn parhau yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent pan gawsant eu cyhoeddi yn 1990. Ers hynny, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi cael ei adolygu sawl gwaith, gan arwain at orchmynion statudol newydd.

39. Yng Nghymru, mae Llwybrau Dysgu a'r Fagloriaeth Gymreig yn edrych ar ehangder, cydbwysedd a mwy o hygyrchedd yn y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr 14-19 oed ac mae Cyfnod Sylfaen newydd ar gyfer plant 3-7 oed wedi dechrau ar gyfnod peilot yn ddiweddar, gyda'r pwyslais ar yr angen am i ddisgyblion ieuainc iawn ddysgu drwy chwarae.

cwricwlwm ac asesu cyn-14

40. I lawer o athrawon, mae nifer o fentrau LlCC wedi cael effaith bositif ar eu bywydau proffesiynol. Mewn ysgolion cynradd, mae'r safonau yn y pynciau craidd yn uwch nag erioed. Ac, fel y mae canlyniadau arholiadau'n dangos, nid yw addysg uwchradd erioed wedi bod mor llwyddiannus i fwy o bobl ieuainc nag y mae yn awr. Er gwaetha'r ffaith bod iddo ormod o gynnwys, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei ystyried fel cwricwlwm sydd wedi cael effaith bositif.

41. Er hynny, o'i osod yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i drefniadau asesu'n rhoi llawer o bwysau ar athrawon ac ysgolion.

42. Mewn ysgolion cynradd, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi rhoi pwysau mawr ar y syniad o gwricwlwm eang a chytbwys, fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol diweddar Estyn ar addysg yng Nghymru. Gwelwyd dirywiad yn yr amser cwricwlaidd sydd ar gael ar gyfer pynciau creadigol. Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i asesiadau'n cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i athrawon ymateb i anghenion a diddordebau unigol y disgyblion.

43. Mewn ysgolion uwchradd, ceir tystiolaeth gref nad oes gan athrawon ddigon o amser i fyfyrio nac i arsylwi, nac i drafod gyda'u cydweithwyr a dysgu o'r profiad. Maent hefyd yn wynebu'r pwysau cyson o ymddygiad annerbyniol gan leiafrif o ddisgyblion. Nid yw'r bobl ieuainc ym mlynyddoedd 7 ac 8 yn credu bod y cwricwlwm yn annog digon o amrywiaeth, pleser a chyfranogiad. Fel y mae Prifysgol Caergrawnt wedi'i ganfod, ceir "perthynas gynhenid rhwng ymddygiad disgybl, dosbarthiadau mawr, cwricwlwm amhriodol, pwysau i gyrraedd targedau a chadw at fentrau penodol".

44. Ceir pwysau arall ar ddysgu ac addysgu yn sgil y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol a'i asesiadau. Er gwaetha'r datganiadau cynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, nid yw cydraddoldeb wrth galon y cwricwlwm. Nid yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn hwyluso'r gwaith o baratoi disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion mewn cymdeithas amrywiol ac yng nghyd-destun y byd. Nid yw chwaith yn annog diwallu anghenion penodol, fel anghenion disgyblion o leiafrifoedd ethnig a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd.

45. Croesewir cyflwyno Dinasyddiaeth fel rhan o'r rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yng Nghymru, ond mae diffyg amser a hyblygrwydd yn y cwricwlwm yn golygu nad yw'n ganolog o gwbl mewn cwricwlwm gorlawn. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm roi hyder i ysgolion i fynd i'r afael â gwahaniaethu, yn cynnwys hiliaeth, rhywiaeth a bwlio homoffobig. Dengys y dystiolaeth ryngwladol bod polisïau cyfleoedd cyfartal yn codi safonau ond ni allant weithio mor effeithiol ag y gallent os yw'r cwricwlwm yn cyfyngu yn hytrach nag annog.

mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol a phwysau asesu'n cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i athrawon i allu ymateb i ddiddordebau unigol y disgyblion

y cwricwlwm ôl-14

46. Mae'r gostyngiad fesul tipyn yn nifer y gorchmynion pwnc statudol wedi 14 oed wedi methu â chyflawni'r amcan o gynnig cwricwlwm eang a chytbwys i bob person ifanc ac wedi methu ag ymdrin yn effeithiol â'r diffyg sgiliau galwedigaethol. Mae'r syniad o TGAU galwedigaethol, y fenter Llwybrau Dysgu a'r Fagloriaeth Gymreig i gyd yn gamau cyntaf sy'n arwydd o'r posibilrwydd o gael gwared ar y rhaniad academaidd / galwedigaethol, ond hyd yma, nid yw eu cyflwyno wedi arwain at ymdrin yn llwyddiannus â'r mater o sut i warantu hawl i gwricwlymau. Mae cyflwr yr ieithoedd tramor modern, Cymraeg fel Ail Iaith a thechnoleg i fyfyrwyr ôl 14 oed yn enghraifft o'r modd y mae'n rhaid rhoi sylw ar fyrder i'r cwricwlwm 14 – 19 oed.

47. Seilir yr argymhellion a nodir yn yr adran hon gan yr NUT felly ar y farn bod raid wrth derfyn ar newid a orfodir yn y cwricwlwm ac mewn asesu – mae'n rhaid i unrhyw newid dderbyn cefnogaeth athrawon ac ysgolion.

y llwybr at gydraddoldeb

argymhellion

(a) > Ar hyn o bryd, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn orlawn a chul. Nid yw manylder rhagnodol y Cwricwlwm Cenedlaethol yn annog dyfnder mewn dysgu. Yn wir, mae'n cyfyngu ar edrych ar feysydd gwybodaeth newydd a'r gallu i greu meysydd dysgu ac addysgu creadigol sy'n croesi ffiniau pynciau traddodiadol. Mae hefyd yn methu ag annog yr hawl i brofiadau addysgol y tu allan i'r ysgol, yn cynnwys y fantais o gael profiadau preswyl. Mae'n rhaid i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ddarparu fframwaith ar gyfer disgrifio hawl pobl ieuainc i ddysgu mewn termau eang.

(b) > Dylid dileu'r gwahaniaeth presennol rhwng y pynciau craidd a sylfaen a'i newid am gwricwlwm fframwaith. Dylai cwricwlwm fframwaith ddisgrifio hawl gyffredin i bobl ieuainc a rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer eu haddysg. Dylai hefyd gynnig sylfeini ar gyfer datblygu creadigrwydd a brwdfrydedd athrawon ar gyfer eu dysgu eu hunain.

(c) > Yng Nghymru, mae ACCAC wedi cyflwyno cyngor yn ddiweddar yn sgil ei adolygiad o'r cwricwlwm a'i asesiadau. Am y tro, nid yw'n annog newidiadau mawr ond yn hytrach yn cyflwyno 'gweledigaeth… o gwricwlwm sy'n fwy cynhwysol ac yn paratoi pobl ieuainc yn well ar gyfer bywyd a gwaith'. Mae hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried, fel nod hirdymor, y weledigaeth o gwricwlwm sydd wedi'i adolygu'n radical ac sy'n troi o amgylch y dysgwr ac yn canolbwyntio ar sgiliau, heb fod yn seiliedig o angenrheidrwydd ar bynciau. Geiriau mawr yn wir! Mae'r NUT yn edrych ymlaen at chwarae rhan lawn yn y trafodaethau sydd i ddod ac at sicrhau cwricwlwm sy'n diwallu anghenion plant a phobl ieuainc Cymru yn well, ac yn hybu cydraddoldeb.

(ch) > Nid yw'r weledigaeth o addysg sydd yn troi o amgylch y plentyn a'r angen am wahaniaethu'r dysgu yn unol ag angen yn un newydd o gwbl. Mae diwallu anghenion unigol pob plentyn a pherson ifanc yn rhywbeth y mae pawb sy'n ymwneud ag addysg yn dyheu amdano. Cred yr NUT bod un peth yn glir fodd bynnag: heb adolygiad sylfaenol o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i drefniadau asesu, bydd "dysgu personol" fel dyhead yn aros yn ddyhead a dim arall. Mae'n hynod falch felly o allu cefnogi argymhelliad ACCAC o adolygiad trwyadl fel bod y cwricwlwm yn datblygu i roi lle cwbl ganolog i'r dysgwr. Gallai hyn arwain at hawl wedi'i gwarantu i bob disgybl, yn cynnwys trefniadau hyfforddi personol a chyfranogiad mewn nifer lleiafswm o weithgareddau awyr agored ac ymweliadau ag amgueddfeydd ac orielau.

(d) > Byddai'r fframwaith a ragwelir gan yr Undeb yn disgrifio amrywiaeth o hawliau statudol, yn cynnwys llythrennedd (yn y Gymraeg a'r Saesneg), rhifedd, gwyddoniaeth a thechnoleg, y celfyddydau creadigol, y dyniaethau (yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau byd-eang), technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac ieithoedd tramor modern.

(dd) > Byddai fframwaith statudol yn annog dulliau newydd o ddysgu trawsgwricwlaidd, fel sgiliau meddwl, dysgu amgylcheddol, dysgu am ddiwydiant a chynhyrchu, dinasyddiaeth ac addysg bersonol a chymdeithasol, yn cynnwys byw'n iach a phwysigrwydd ymarfer corff.

(e) > Un rhan greiddiol o'r fframwaith newydd fyddai cyfeiriadau penodol at anghenion pobl ieuainc o gefndiroedd lleiafrif ethnig, anghenion plant o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd a'r rhai gydag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Byddai'r cwricwlwm fframwaith newydd yn rhoi anogaeth benodol i athrawon i addasu'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion penodol y disgyblion, heb i'r athrawon orfod dangos yn artiffisial eu bod wedi rhoi sylw i gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Byddai llawer o gynnwys y cwricwlwm statudol presennol yn cael ei ail-ddynodi i fod yn gyngor yn unig.

(f) > Mewn perthynas â symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mae'r Undeb yn disgwyl ymgynghoriad gan LlCC yn fuan iawn ynghylch cyfarwyddyd ar gyfer y symud, gan ddilyn grantiau neilltuol ar gyfer strategaethau peilot i wella arferion. Edrychwn ymlaen at wneud ein cyfraniad.

(ff) > Nid yw strwythur presennol Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn gweithredu o blaid cysondeb yn y cwricwlwm rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Nid oes chwaith, yn gyffredinol, gydnabyddiaeth yn y ddau Gyfnod Allweddol o'r gwahanol ffyrdd y trefnir ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Ceir dadl gref o blaid cwricwlwm sy'n cefnogi hyblygrwydd yn nhrefniadaeth y dysgu, fel bod ysgolion cynradd yn gallu cyflwyno dysgu arbenigol ochr yn ochr â dysgu'r dosbarth, ac fel bod ysgolion uwchradd yn gallu darparu cefnogaeth benodol i ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 ac 8 nad ydynt yn barod eto ar gyfer ystod lawn y cwricwlwm. Mae'n hanfodol bod cwricwlwm fframwaith newydd yn cefnogi datblygiad cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

(g) > Penderfynir ar drefniadaeth ysgolion uwchradd yng Nghyfnod Allweddol 3 gan y gofynion pwnc cyfredol yn bennaf. Byddai dileu llawer o ofynion cynnwys statudol penodol y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3 yn anhepgor fel rhan o adolygiad cyffredinol o gynnwys gorlawn y Cwricwlwm Cenedlaethol 5-14 oed.

(ng) > Mae'r adolygiad o asesu yng Nghymru, a wnaed gan yr Athro Richard Daugherty a'i Grŵp Adolygu, yn fodel yr ydym yn falch ohono ac y gall eraill ddysgu oddi wrtho. Mae yr NUT yn cefnogi barn y Grŵp i'r eithaf, sef mai prif ddiben asesu yw cynorthwyo gyda dysgu.

(h) > Yn ei ddogfen bolisi, 'Y Llwybr at Gydraddoldeb', a gyhoeddwyd mor gynnar ag 1996, cyflwynodd yr NUT fframwaith cymharol debyg i'r un sy'n cael ei dreialu gan y Fagloriaeth Gymreig ac a gyflwynwyd yn fwy diweddar gan Tomlinson yn ei adolygiad 14-19 yn Lloegr. Felly, mae'r NUT yn cefnogi'r egwyddor o'r diploma a'i strwythur. Mae'n cefnogi – ac yn cadw llygad barcud ar – ddatblygiadau yn y Fagloriaeth Gymreig. Mae materion i'w datrys o hyd fodd bynnag, gan gynnwys hawl pob person ifanc i ehangder a dyfnder yn y cwricwlwm. Mae'r chwe egwyddor a nodwyd gan yr NUT fel rhag-amodau ar gyfer y diwygiad 14-19 oed wedi cael eu mabwysiadu i raddau helaeth yn y Fagloriaeth Gymreig a chan Tomlinson. Fodd bynnag, mae'n rhaid wrth arian newydd ar gyfer talu costau'r trefniadau hyn. Hefyd, bydd raid cynnal archwiliadau manwl ar oblygiadau cost gwirioneddol y Fagloriaeth Gymreig.

(i) > Mae'n hanfodol bod y diwygiad 14-19 oed yn sicrhau cysondeb dros amser. Byddai yr NUT yn cynnig felly bod angen sefydlu corff gweithredol i oruchwylio trefniadau'r Fagloriaeth Gymreig ac unrhyw oblygiadau a berthyn i'r trefniadau ôl-Tomlinson yn Lloegr. Dylai cynrychiolaeth eang o sefydliadau athrawon, TUC Cymru, y CBAC, ACCAC, CBI Cymru, y Prifysgolion a LlCC yn cael ei gynnwys yn ei aelodaeth. Ei ddyletswydd fyddai darparu fforwm a chylch trafod ar gyfer unrhyw broblemau posibl a fyddai'n codi o weithredu newid.

dim ond fframwaith ar gyfer realiti ymarferol dysgu ac addysgu all y cwricwlwm cenedlaethol ei ddarparu



48. Mae yr NUT wedi dadlau yn gyson dros sefydlu proffesiwn dysgu lle mae pawb yn raddedigion. Un rhan ganolog o addysg gyfun yw proffesiwn dysgu gyda'r gallu i ymateb i anghenion cymunedau lleol ond proffesiwn, ar yr un pryd, gyda hunaniaeth a llais cenedlaethol. Yn fwy nag erioed yn awr, cysylltir dysgu yn genedlaethol drwy ddatblygiadau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a thrwy ddefnydd o fanc cyffredin o wybodaeth am ddysgu.

49. Er mwyn cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan rieni a phobl ieuainc, mae'n rhaid i ddatblygiad proffesiynol fod yn rhan o hawl cytundebol pob athro. Dim ond fframwaith ar gyfer realiti ymarferol dysgu ac addysgu all y Cwricwlwm Cenedlaethol ei ddarparu; diffinnir proffesiynoldeb athrawon gan eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu profiad, eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol.

50. Dim ond drwy hawl i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP), sy'n rhan allweddol ac nid ychwanegol o waith athrawon, y gellir rhoi hwb i frwdfrydedd ac ymrwymiad yr addysgu. Byddai'r dull hwn o weithredu'n arwain at ostyngiad yn y gyfradd annerbyniol o uchel o drosiant mewn athrawon a'r colledion i'r proffesiwn.

51. Mae yr NUT yn sylfaenol ymroddedig i sicrhau hawl i DPP i athrawon. Mae'r dystiolaeth o raglenni DPP yr NUT ei hun yn dangos bod athrawon yn gwerthfawrogi DPP pan fyddant yn teimlo eu bod yn berchen arno. Mae'n creu mwy o hyder yn broffesiynol ac yn gwella'r addysgu. Os yw gwerthuso i olygu unrhyw beth, mae'n rhaid iddo gyflwyno DPP fel hawl broffesiynol – nid fel gorfodaeth.

52. Mae sawl haen yn perthyn i DPP, gydag ambell un yn gynnyrch deddfwriaeth y Llywodraeth, fel y Ddeddf Plant newydd. Bydd gan yr ysgol fel sefydliad flaenoriaethau datblygu proffesiynol. Hefyd, yn sylfaenol, datblygiad proffesiynol sy'n cael ei ddewis ei berchen, a'i reoli gan yr athrawon eu hunain yw'r allwedd i well ysbryd, cymhelliant a hyder ymhlith athrawon.

53. Yng Nghymru, cafwyd ymateb brwdfrydig i'r cyfleoedd a gynigir gan amrywiaeth o grantiau ar gael trwy'r Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTC Cymru). Roedd yr NUT yn arbennig o falch o ymateb athrawon a'r gefnogaeth gan GTC Cymru i'w raglen o ymweliadau astudio tramor a gyllidwyd gan y cyfrwng hwn. Roedd y grantiau'n amrywio o weithgareddau ysgol gyfan i ddiwallu anghenion neu ddiddordebau unigol athrawon. Mae'n ofid gennym fod swm y cyllid sydd ar gael wedi gostwng ar gyfer 2005-6 ac rydym yn annog ei adfer i'r lefel flaenorol.

54. Serch hynny, roedd y cyllid a ddarparwyd yn arwydd, o'r diwedd, bod cydnabyddiaeth i farn Adroddiad James yn 1971 y dylai athrawon, drwy gydol eu gyrfaoedd, gael amser a chyllid i fyfyrio, ymchwilio a datblygu eu harferion. Ceir tystiolaeth gref, er enghraifft, bod athrawon sy'n mynd am flwyddyn i wlad arall ar gyfer datblygu'n broffesiynol, boed drwy Wasanaeth Gwirfoddol Dramor neu unrhyw gyfrwng arall, yn dychwelyd gyda syniadau newydd a chymhelliant ffres. Yn eu tro, mae gan athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor anghenion penodol. Cred yr NUT y gallwn ddysgu o hyd oddi wrth weledigaeth ac ymrwymiad gwreiddiol James ac y dylai'r rhain barhau i fod yn gonglfeini i'r polisi DPP.

55. Ond eto, nid oes gan lawer o athrawon ddigon o amser i dderbyn DPP a cheir amrywiaeth annerbyniol rhwng athrawon a rhwng ysgolion o ran yr amser sydd ar gael iddynt. Cred yr NUT bod yr amrywiaeth eang yma yng ngallu ysgolion i ddefnyddio eu cyllidebau ar gyfer DPP yn bodoli'n bennaf oherwydd bod eu gallu i gyllido hefyd yn amrywio'n eang. Dim ond cyfran deg a phenodol o gyllid i bob athro all ddileu'r gwahaniaeth eang hwn.

56. Dylai pob athro dderbyn hawl sylfaenol i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Dylai'r hawl yma fod ar ddwy ffurf: drwy amser wedi'i warantu sydd ar gael yn ystod y diwrnod dysgu a thrwy sicrhau cyllideb unigol i bob athro a phennaeth. Bydd raid diffinio'r ddwy hawl. Wrth gyflwyno ei argymhellion ei hun i'r STRB, mae'r NUT wedi galw arno i adolygu effaith y trefniadau DPP yn yr Alban, yn cynnwys y Cynllun Athrwon Siartredig. Mae'n croesawu'r ffaith bod GTC Cymru, ar y cyd â LICC, eisoes yn edrych ar y posibilrwydd hwn.

argymhellion

dylai pob athro gael yr hawl i 1 tymor sabothol

(a) > Mae GTC Cymru wedi dechrau gweithio ar adeiladu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer athrawon. Mae'n adeiladu ar ei brofiadau hyd yma gyda'r rhaglen gyllido. Mae'r Fframwaith yn ystyried anghenion unigol pob athro ar ba lefel neu gam bynnag ar gyfer DPP, bodolaeth cymwysterau presennol, fel Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Penaethiaid, a'r cyfleoedd sydd wedi'u gwarantu a'u cyllido sy'n bodoli yn awr ar gyfer datblygiad proffesiynol cynnar (DPC). Mae'r NUT yn croesawu'r ffaith ei fod yn rhan o'r broses hon. Dylai'r Fframwaith fod yn gymar delfrydol i'r strategaeth genedlaethol ar gyfer DPP yng Nghymru.

(b) > Cred yr NUT y dylai LlCC adeiladu hefyd ar ei gwaith ar DPP yn ystod blynyddoedd cynnar y dysgu, er mwyn creu strategaeth genedlaethol ar gyfer DPP. Dylid gofyn i bob sefydliad athrawon yng Nghymru, ochr yn ochr â GTC Cymru, gydweithio er mwyn sefydlu cyfres o argymhellion. Eu diben fyddai sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i warantu ar gyfer athrawon drwy gydol eu gyrfaoedd. Byddai'r strategaeth yn rhoi ystyriaeth i'r angen am annog athrawon i gynnal eu gwaith ymchwil eu hunain i beth sy'n llwyddiannus wrth addysgu. Diben argymhellion yr NUT, a nodir isod, yw cyfrannu at ddatblygu'r strategaethau.

(c) > Byddai'n rhaid gwerthuso swyddogaeth Addysg Uwch mewn darparu gwasanaeth mentora ar gyfer yr athrawon hynny sy'n gwneud gwaith ymchwil. Dylid rhoi cymhelliant ariannol penodol i bartneriaethau Ymarfer Dysgu ac i Ymarfer Dysgu Cychwynnol mewn Ysgolion er mwyn datblygu timau o fentoriaid ymchwil hyfforddedig a fydd yn gyfrifol am ddarparu cyfarwyddyd medrus ac ymarferol i athrawon sy'n gwneud ymchwil.

(ch) > Dylai pob athro dderbyn yn rheolaidd y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau mewn disgyblaethau a meysydd pwnc, yn cynnwys datblygiad proffesiynol yn y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae'n rhaid i unrhyw adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ganolbwyntio ar ddatblygu hyfforddiant i gyd-athrawon a gallu athrawon gyda sgiliau arbennig i hyfforddi eraill. Dylai amser wedi'i warantu yn ystod y diwrnod ysgol alluogi athrawon i rannu eu harferion gydag athrawon mewn ysgolion eraill.

(d) > Yn ôl profiad rhaglen DPP yr NUT, mae athrawon yn parchu gallu eu Hundebau i gyflwyno DPP o safon uchel - ac mae'r profiad hwn yn wir yn yr Unol Daleithiau hefyd, lle mae Ffederasiwn Athrawon America a'r Gymdeithas Addysg Genedlaethol yn derbyn cyllid bwrdd-ysgol a thaleithiol i gyflwyno rhaglenni llawn a pharhaus ar gyfer athrawon.

(dd) > Mae'n rhaid i'r model cyllido ar gyfer cyflwyno hawl i DPP ganolbwyntio ar sicrhau bod pob ysgol yn derbyn swm penodol, sy'n ddigon i ddiwallu anghenion ei holl athrawon. Dylai pob ysgol dderbyn cyllid lleiafswm o £1,000 – yn unol â'r prisiau presennol – ar gyfer datblygiad proffesiynol personol i bob athro, bob blwyddyn. Yng Nghymru, dyma beth mae LlCC yn ei ddarparu yn awr ar gyfer blwyddyn gyntaf y DPC. Hefyd, dylai pob athro gael yr hawl i dymor sabothol unwaith bob saith mlynedd wrth ddysgu, er mwyn gwneud gwaith ymchwil i arferion effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Dylid sicrhau bod ysgoloriaethau digonol ar gael drwy gyfrwng AALl i gwrdd â'r hawl yma.

(e) > Yng nghyd-destun y cytundeb a luniwyd yn ddiweddar rhwng gwledydd y Gymanwlad ynghylch protocol recriwtio athrawon, dylai LlCC, gan gydweithio â'r DfES, sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i athrawon profiadol weithio am flwyddyn mewn gwledydd sy'n datblygu, drwy gyfrwng Gwasanaeth Gwirfoddol Dramor a Chyngor Prydain. Byddai'r rhaglen ysgoloriaeth yn cynnwys neilltuo ysgoloriaethau i AALl ar gyfer datblygiad proffesiynol dramor, gan benderfynu ar nifer yr ysgoloriaethau o'r fath ar sail nifer yr ysgolion ym mhob AALl. Byddai'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r ysgoloriaethau hyn yn seiliedig ar y potensial ar gyfer datblygu cysylltiadau DPP rhwng ysgolion yng Nghymru a Lloegr ac ysgolion mewn gwledydd sy'n datblygu. Yn y cyd-destun hwn, mae NUT Cymru, drwy gyfrwng Dolen Cymru, eisoes wedi sefydlu ei gysylltiadau cryf ei hun nid yn unig ag ysgolion yn Lesotho ond hefyd â Llywodraeth Lesotho a mudiad yr undebau llafur yno.

57. Byddai safonau uchel yn yr Hyfforddiant Ymarfer Dysgu Cychwynnol, datblygiad proffesiynol parhaus fel hawl i athrawon a chwricwlwm ac asesiadau fframwaith sy'n cefnogi'r dysgu a'r creadigrwydd, yn darparu sylfaen ar gyfer llwyddiant y gwasanaeth addysg yn y dyfodol.

58. Cred yr NUT y bydd yr argymhellion yn y datganiad hwn yn gwella'r addysgu a'r dysgu. Yn wir, mae tystiolaeth SCDE a thystiolaeth o fannau eraill yn dangos bod proffesiwn addysgu y gellir ymddiried ynddo, proffesiwn sy'n derbyn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus o safon uchel, yn cyfrannu at lefelau uchel o gyflawni ymhlith plant a phobl ieuainc.

niferoedd dysgu a maint dosbarthiadau

59. Dim ond os oes digon o athrawon ym mhob ysgol, ac os yw maint y dosbarthiadau a'r grwpiau yn ddigon bychan i athrawon allu rhoi sylw i anghenion pob plentyn, fydd effeithiau llawn addysgu o safon uchel i'w gweld. Mae yr NUT wedi bod ar flaen y gad wrth geisio ysgafnu'r baich a achosir gan ormod o waith a orfodir ar athrawon. Yn dilyn cynnig yr NUT, cytunodd y cynadleddwyr yng Nghyngres yr Undebau Llafur yn unfrydol i werthuso diwygio eu llwyth gwaith. Yng nghyd-destun y gwerthusiad hwnnw, mae'n amlwg y dylai Llywodraeth San Steffan fabwysiadu nifer o strategaethau.

personoli'r dysgu

argymhellion

mae dysgu yn gyfrifoldeb sy'n gofyn am lawer o sgil

(a) > Mae rheoliadau gan Lywodraeth San Steffan wedi diffinio swyddogaeth staff cynorthwyol wrth wneud gwaith penodol. Mae angen hefyd am ddiffinio nodweddion craidd y gwaith a wneir gan athrawon cymwysedig. Dylid seilio diffiniad o'r fath ar yr egwyddor bod addysgu yn gyfrifoldeb sy'n mynnu llawer o sgil gan gynnwys amrywiaeth eang o sgiliau proffesiynol. Byddai creu diffiniad o'r fath yn llinyn mesur da i benaethiaid a chyrff rheoli wrth iddynt wneud penderfyniadau am strwythurau athrawon a staff cefnogi eu hysgolion. Dylid ceisio sêl bendith y Senedd i reoliadau sy'n diffinio gwaith athrawon cymwysedig ochr yn ochr â'r rheoliadau sy'n diffinio gwaith y staff cynorthwyol.

(b) > Dylid sicrhau ei bod yn ofynnol i bob ysgol a phob uned cyfeirio disgyblion gyflogi rhis craidd o athrawon. Dylid diffinio nifer eraill o athrawon ar gyfer pob sefydliad yn ôl rhif uchaf o ddisgyblion mewn dosbarth a'r cyfyngiadau ar grwpiau, gan wahaniaethu'n briodol rhwng gwaith athrawon a staff cynorthwyol, fframwaith cwricwlwm statudol sy'n galw am gwricwlwm cytbwys ac eang, ac anghenion personol a chymdeithasol plant a phobl ieuainc. Mae adran ar wahân yn y ddogfen hon yn cyflwyno argymhellion ar gyfer mabwysiadu cyllid a arweinir gan weithgareddau, a fyddai o gymorth i ddiffinio anghenion staffio ysgolion.

(c) > Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi deddfwriaeth yn pennu uchafswm ar gyfer nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau yn yr ystod lawn o 3-19 oed, gan alw am fwy o ostyngiad yn nifer y plant mewn dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 1.

(ch) > Dylai niferoedd is o ddisgyblion ar gofrestri fod yn gyfle ac nid yn fygythiad. Mae'n gyfle i:

- ostwng nifer y disgyblion mewn dosbarth a gwella amodau gwasanaethu i athrawon a staff cynorthwyol;

- gwella gallu'r athrawon i ddiwallu anghenion dysgu unigol y plant a'r bobl ieuainc;

- ehangu'r cyfleoedd cwricwlaidd a darparu amser ar gyfer datblygiad proffesiynol a chyswllt rhwng staff;

- sefydlu cysylltiadau cynhyrchiol gyda rhieni, gydag ysgolion eraill a chyda chymunedau lleol;

- cysylltu â gwasanaethau eraill yn yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol er mwyn canfod sut i ddiwallu anghenion plant mewn perygl;

- sefydlu cysylltiadau cynhyrchiol rhwng ysgolion a chyflogwyr lleol.

(d) > Wrth gydnabod cyfleoedd o'r fath, dylai llywodraethau Cymru a Lloegr sefydlu bob blwyddyn beth yw cyfanswm yr athrawon a'r staff cynorthwyol i'w cyflogi. Dylid seilio'r cyfanswm ar y cyfleoedd a nodir uchod, y cyfansymiau targed a gostiwyd yng Nghytundeb Cyllid blynyddol Llywodraeth Leol, yr angen am gynnal digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion sy'n newid o hyd a'r angen am beidio â tharfu ar ysgolion drwy amrywiaethau rheolaidd yn nifer y staff.

(dd) > Mae'r ffigyrau diweddaraf sydd ar gael yn gyhoeddus yn dangos bod bron i hanner yr holl athrawon yn 45 oed neu'n hŷn yn 2002. Felly mae'n rhaid i LICC gynnal ymchwiliad trwyadl ac eang i'r cyflenwad o athrawon yn y dyfodol, ar gyfer y 10 – 15 mlynedd nesaf.

dymchwel y muriau

rhan pedwar: atebolrwydd

60. Mae gofyn am atebolrwydd am weithredu'r gwasanaeth addysg yn effeithiol gan gymunedau lleol a'r llywodraeth yn ddigon rhesymol ond mae diffyg ymddiriedaeth yn treiddio drwy'r system arolygu bresennol. Mae gan rieni a disgyblion hawl i ddisgwyl system deg a chywir o atebolrwydd.

61. Er bod Estyn wedi symud ryw faint oddi wrth ddulliau cosbol wrth arolygu, mae canlyniadau gosod ysgolion dan 'fesurau arbennig' yn ddifrifol. Er gwaetha'r diwygiadau, yn cynnwys ymgais i leihau'r gofynion cyn arolwg, nid yw'r pryder cyn arolwg a'r dirywiad wedi arolwg wedi diflannu ymhlith athrawon. Mae datgan bod ysgol yn 'methu' neu'n 'peri pryder', yn seiliedig yn aml iawn ar ganlyniadau profion ac arholiadau isel, yn arwain at bardduo gyrfaoedd a gormod o waith ac yn aml iawn mae athrawon mewn ysgolion dan 'fesurau arbennig' yn trosglwyddo i ysgol arall neu'n newid gyrfa yn llwyr.

62. Mae gwerthuso ysgolion yn fater cymhleth. Mae yr NUT wedi arwain y ffordd wrth geisio sicrhau gwerthusiad o ysgolion sy'n cefnogi, ac nid yn cosbi, ysgolion. Mae hunanwerthusiad ysgolion yn rhan annatod o arolwg yn awr.

63. Mae ymateb athrawon i hyn wedi bod yn gymysg. Maent yn credu y gallai'r diwygiad hwn mewn trefniadau arolygu fod yn gam yn y cyfeiriad iawn ond dim ond os yw'n cefnogi eu haddysgu hwy mae athrawon yn fodlon cefnogi hunanwerthusiad, yn hytrach na bodoli i fodloni gofynion system arolygu.

64. Mae dyfodol gwerthuso mewn ysgolion ar drobwynt felly. Mae gan brif ddiben y diwygiad – cael ei dderbyn ar gyfer arolygu ysgolion gan gymunedau ysgol – gryn daith o'i flaen eto, ond mae'r diwygiad hwn, a diwygiadau eraill, wedi lleddfu rhyw faint ar brif wendidau'r arolygu. Yn yr un modd ag y mae mae athrawon yn cefnogi asesu gan athrawon, maent hefyd yn cefnogi hunanwerthusiad ond, o'i orfodi, gallai'r dulliau gweithredu sathru traed y proffesiwn sy'n eu cefnogi. Mae'n bosibl troi hunanwerthusiad gan ysgol ac asesiad gan athrawon yn weithdrefnau rheoli caeth ac anhyblyg o fewn ysgolion. Gall hunanwerthusiad ysgol droi'n hunan-arolwg, gyda'r pennaeth yn chwarae rôl arolygydd mewnol. Ni ddylai hyn ddigwydd.

65. Mae'n rhaid i farn athrawon fod yn ganolog mewn asesu a gwerthuso. Y dystiolaeth gan wledydd sydd wedi mabwysiadu hunanwerthusiad yw bod dulliau o'r fath o weithredu wedi cyfrannu at lefelau cyflawni uwch ymhlith mwyafrif helaeth pobl ieuainc. Pan fo athrawon yn asesu a gwerthuso eu gwaith eu hunain, mae'r safonau'n codi, nid gostwng.

66. Seilir argymhellion yr NUT ar gyfer dull newydd o weithredu mewn perthynas ag atebolrwydd ar dystiolaeth. Eu diben yw hyrwyddo diwygiadau er mwyn bod o fudd i ysgolion ac i gefnogi'r addysgu a'r dysgu.

argymhellion

(a) > Dylai'r data sydd ar gael o ganlyniadau asesu ac arholiadau fwydo i adroddiadau gwerthuso'r ysgolion, fel ag y maent yn yr adroddiadau arolygu presennol. Er mwyn diwallu anghenion rhesymol y llywodraeth am ddarlun cryno o effeithiolrwydd y gwasanaeth addysg, dylai LICC sefydlu Uned Asesu Perfformiad. Byddai uned o'r fath yn gallu crynhoi data a holi cwestiynau drwy astudiaethau yn seiliedig ar samplu. Byddai'n gweithredu'n annibynnol, gyda bwrdd ymgynghorol yn cynnwys undebau athrawon a staff cynorthwyol, TUC Cymru, CBI Cymru, Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad, ACCAC a'r CBAC. Byddai'n ymateb i geisiadau am dystiolaeth genedlaethol ynghylch safonau mewn ysgolion a cholegau.

(b) > Dylid dileu'r termau "mesurau arbennig" a "gwendidau arwyddocaol". Dylid eu cyfnewid am "ysgolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol". Gallai cefnogaeth o'r fath gynnwys cefnogaeth allanol. Os yw gwerthusiad allanol yn canfod problemau mewn ysgol, yna dylai'r AALl orfod darparu cefnogaeth, gan gynnwys darparu ymgynghorwyr ac athrawon ar secondiad a'u lleoli yn yr ysgol. Ni ddylid ceisio gwella drwy ddefnyddio un math o gefnogaeth i bawb. Mae anghenion pob ysgol yn wahanol.

(c) > Yng Nghymru, mae AEM yn dal i fodoli fel corff annibynnol. Yng Nghymru hefyd mae consortia'r AALl yn gweithredu ar sawl lefel. Felly, byddai'n ddoeth defnyddio'r cydweithrediad hwn sydd wedi'i sefydlu'n dda rhwng yr AALl wrth ddiwygio'r prosesau arolygu. Byddai'r AALl unigol yn parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'w hysgolion eu hunain ac yn monitro eu darpariaeth a'u cynnydd. Drwy brotocol sydd wedi'i sefydlu gan y consortia, byddai timau o AALl wedyn yn gwerthuso perfformiad yr ysgolion, mewn ffordd niwtral heb unrhyw ragfarn. Yn eu tro, byddai AEM yn dal ati i fonitro'r AALl, gan gynnwys effeithiolrwydd prosesau monitro ysgolion yr AALl unigol a rhai'r consortia. Felly, ni fyddai angen dal ati gyda'r cylch chwe blynedd o arolygu allanol drud gan dimau preifat o arolygwyr sydd wedi'u cofrestru gydag Estyn. Gellid gwario'r arian sy'n cael ei arbed ar yr ysgolion.

(ch) > Dylid seilio atebolrwydd agored a chyhoeddus am ysgolion ar system werthuso sy'n arwain at farn deg a manwl gywir. Byddai gan system newydd o werthuso ysgolion weithdrefn apelio agored ac ar wahân fel bod yr ysgolion sy'n anghytuno naill ai gyda'r weithdrefn neu gyda chynnwys y farn, neu'r ddau, yn gallu apelio. Byddai canlyniadau'r apêl yn cadarnhau, yn addasu neu'n gwyrdroi'r penderfyniadau gwreiddiol.

67. Dylid cael un ffurf sengl o werthuso sefydliadau: hunanwerthusiad yr ysgol. Dylai sefydliadau addysgol fod yn ddatblygiadol, nid yn gosbol, wrth werthuso. Nid yw gwerthusiad cosbol yn cryfhau ysgolion, mae'n eu gadael yn fregus. Dylai'r asesiad o'r cwricwlwm ganolbwyntio ar gefnogi'r dysgu.

68. Mae'r argymhellion y mae'r NUT wedi'u datgan uchod yn darparu fframwaith ar gyfer system newydd o atebolrwydd i ysgolion ac, yn wir, i golegau – fframwaith sy'n cefnogi ysgolion, nid eu tanseilio, ac sy'n cyfrannu at safon y gwasanaeth addysg.

dylai
asesiadau'r
cwricwlwm
ganolbwyntio
ar gefnogi'r dysgu

i gloi

69. Mae pedair thema wedi bod yn sail i argymhellion yr NUT yn 'Dymchwel y Muriau'.

Mae addysg yn arf pwerus er mwyn sicrhau cyfleoedd teg mewn bywyd. Dylai cymunedau ac awdurdodau lleol sicrhau sylfaen o addysg gydradd a chyfartal i bob plentyn a pherson ifanc.

Mae'n rhaid i bob ysgol gael yr hyder i gymell a defnyddio'r proffesiynoldeb sydd gan y staff i gyd. Mae cwricwlwm a system asesu sy'n annog dyfeisgarwch yn hanfodol.

Er mwyn i athrawon reoli newid, mae'n rhaid defnyddio a gwella eu proffesiynoldeb. Y rhan greiddiol a berthyn i broffesiynoldeb athrawon yw'r hawl gyfartal i ddatblygiad proffesiynol.

Mae gan y cyhoedd yn gyffredinol, a'r llywodraeth, hawl i wybod pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth addysg. Fe all atebolrwydd fod yn fanwl ac eto gefnogi ysgolion ar yr un pryd.

70. Yr hyn a geir yn 'Dymchwel y Muriau' yw polisïau ymarferol fydd yn gweithio. Mae'r Datganiad yma'n cydnabod bod addysg, yn wir, yn chwarae rhan gwbl ganolog ym mhopeth yr ydym yn ei gyfrif yn werthfawr yn ein cymdeithas.

cynnig polisïau ymarferol a fydd yn gweithio

rhif swydd: - 3767/11/04W

cyhoeddwyd gan
Yr NUT - www.teachers.org.uk

dyluniwyd gan home - www.thisishome.co.uk
a'r NUT

argraffwyd gan
Centurion Press - www.centurion.co.uk